# EMYR WYN JONES

## a chyfraniad yr estron i sglein yr Orsedd

# OLL YN EU GYNAU AMRYLIW

*(Parhad o* Y Casglwr, *Rhif 48, Nadolig 1992, tudalen 19.)*

PAN FU farw C. W. Mansel Lewis, yn bump a phedwar ugain mlwydd oed, ym Mawrth 1931, honnwyd yn hyderus yn y *Llanelly and County Guardian* mai ei anrheg ef oedd Baner yr Orsedd, ac mai Herkomer ei hun a'i dyluniodd. Mae amheuaeth am yr honiad yma, oni fu dwy faner ar gael dros dro. Mae'n debyg mai treigl y blynyddoedd a achosodd y llithriad yn y *Llanelly Guardian*.

Anrheg gŵr hael arall o Lanelli — Syr Arthur Stepney — oedd y Faner, ac Arlunydd Pen-y-garn (T. H. Thomas) a'i cynlluniodd, ac fe'i defnyddiwyd am y tro cyntaf yn Eisteddfod Llandudno yn 1896.

Roedd Herkomer yn bresennol yn yr Eisteddfod honno hefyd, a phan ddaeth y gweithrediadau i ben treuliodd ei wyliau haf yn beicio 'er mwyn gwneud ei hun yn gyfarwydd iawn ag ardaloedd mynyddig Cymru'. Fe gofir y cyfeiriwyd eisoes at ei waith yn saernïo'r Cleddyf Mawr ar gyfer Eisteddfod Caerdydd yn 1899.

Mae'n eglur bod Herkomer yn ymddiddori'n wresog yn yr Eisteddfod a'r Orsedd, a'i fod yn chwennych ffyniant ein diwylliant fel cenedl. Prin y gellid disgwyl i ŵr mor eithriadol o brysur ddysgu'r Gymraeg, ond ni welwyd gair o dystiolaeth fod yr iaith 'esgymun' yn peri rhwystr iddo. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn darllen y *Times*!

Ymddengys yn debygol fod cyfraniad Herkomer, yr Estron, wedi profi'n symbyliad i William (Goscombe) John, y Cymro, mab i grefftwr o Gaerdydd a bachgen a lwyddodd i oresgyn anfanteision dygn. Daeth yntau yn ei dro yn Academydd Brenhinol. Aeth John i wylio'r Orsedd ym Mlaenau Ffestiniog yn 1898, a dyfarnodd fod 'y seremoni (yn) unigryw a thra llachar . . . Roedd yno ddisgleirdeb hyfryd a lliw a gloywder yn cwmpasu'r holl achlysur'. *(Trosiad.)*

A'r canlyniad oedd iddo saernïo'r Corn Hirlas, ac fe'i defnyddiwyd y flwyddyn ddilynol yng Nghaerdydd. Anrheg ydoedd o law yr Arglwydd Tredegyr. Beth tybed fyddai barn Syr Hubert a Syr William pe cawsant ddod yn ôl i weld cyflwr yr Orsedd heddiw — ganrif yn ddiweddarach — ar ôl dawn a dychymyg Cynan a Gwyndaf fod ar waith yn ei gloywi ymhellach?

* * * *

NID CYMWYNAS amserol Mansel Lewis na'r cyfeillgarwch a'i dilynodd, nid y tirluniau o Eryri na'r portreadau o Gymry enwog chwaith, na hyd yn oed yr ymweliadau â'r Eisteddfod, oedd cyfanswm y dylanwadau Cymreig ar Herkomer. Mae'n rhaid cael golwg arno ar ei aelwyd gartref.

Ei wraig gyntaf oedd Anna Weise, Almaenes o Berlin. Priodasant yn 1874 a bu iddynt fab a merch. Roedd cyflwr iechyd Anna yn eiddil iawn a bu farw o'r pla gwyn carlamus yn 1883. Ei 'companion' — ac nid yw'n hawdd cael yr union air Cymraeg am y fath swydd — ar yr aelwyd yn Bushey oedd Cymraes ifanc o Ruthun, sef merch Thomas Griffiths, Stanley House.

Roedd hi'n Gymraes wirioneddol ond yn dwyn enw digon anghymreigaidd — Lulu.

Cymaint oedd ymdeimlad Herkomer o'i ddyled i Lulu am ei gofal tyner dros Anna a'r plant nes iddo ei phriodi yn Awst 1884. Roedd y wraig newydd mewn llawn cydymdeimlad â'i waith ac fe'i profodd ei hun yn ysbrydoliaeth iddo ar adeg anodd.

Ond tymor byr a gawsant gyda'i gilydd; bu farw Lulu ymhen blwyddyn o dan amgylchiadau trist yn dilyn damwain a hithau'n feichiog. Talodd Herkomer deyrnged addfwyn iawn i'w choffadwriaeth. Rhoddodd hefyd ei henw ar y cartref.

Er iddo golli Lulu mor annhymig ni thorrwyd cysylltiad aelwyd Herkomer â Chymru, oblegid roedd Margaret, ail ferch Thomas Griffiths, wedi bod yn aelod o'r staff ers 1878. Roedd hi'n gwmni i Lulu ac yn cynorthwyo gyda'r gwaith o fagu'r ddau blentyn o'r briodas gyntaf. Erbyn 1888 roedd Herkomer, yn ei unigedd ar ôl dwy brofedigaeth fawr, yn awyddus iawn i briodi Margaret.

Yr adeg honno yn ôl Taflen y Graddau Carennydd a Chyfathrach 'nid oes i Fab briodi chwaer ei wraig'. Felly roedd bwriad Herkomer yn anghyfreithlon. Erbyn hyn roedd ef bron yn ddeugain mlwydd oed ac yn ddyn wedi llwyddo i oresgyn lliaws o anawsterau. At hynny roedd yn meddu ar ddogn helaeth o benderfyniad a chraffter.

Cymaint oedd ei gariad tuag at Margaret — ac unwaith eto megis yn ei berthynas â Lulu yr ymdeimlad o'i ddyled iddi am ei gofal dros y plant a'r cartref — nes iddo ailgydio yn ei ddinasyddiaeth Almaenig.

Aeth â hi i Landsberg, ger ei hen gartref yn Bavaria, a'i phriodi yno heb unrhyw anhawster cyfreithiol. Wedyn dychwelodd i ailafael yn ei ddinasyddiaeth Brydeinig.

* * * *

PROFODD Margaret ei hun yn wraig ragorol iddo, ac yn abl i gymryd rhan ddeallus yn amryfal weithgareddau ei phriod. Mae ei bortread ef ohoni yn ei harddangos fel boneddiges urddasol a gosgeiddig. Bu iddynt fab a merch.

Ymddengys i Herkomer a'i wraig ddod yn aelodau o'r Orsedd, a'i enw gorseddol ef oedd Gomer. Gofalodd Margaret amdano hyd ei farwolaeth ym Mawrth 1914. Bu iddi hi ei oroesi am ugain mlynedd.

Mae'n wybyddus y treuliodd Herkomer gryn dipyn o amser yn Rhuthun. Gellir casglu hyn, er nad oes manylion ar gael, oblegid fe drowyd ystafell yn Stanley House yn stiwdio iddo, ac fe ddywedir y bu'n darlunio cryn dipyn ynddi.

Pan fyddai ef oddi cartref ar deithiau tramor, byddai Margaret yn dod â phlant Anna — ac yn ddiweddarach ei phlant ei hun — i aros yn Stanley House. Gyda llaw, saif y tŷ o hyd wrth ymyl y fynedfa i'r ysbyty lleol, ar y ffordd sy'n mynd tua Llanrhydd, ac yn eglwys Llanrhydd y claddwyd Thomas Griffiths.

Yn rhinwedd ei orchwyl fel Swyddog Cynhorthwy *(Relieving Officer)* rhan o ddyletswyddau Thomas Griffiths oedd arolygu'r Tloty yn Rhuthun. Erys traddodiad lleol o hyd fod rhai o hen breswylwyr y Wyrcws yn destun nifer o bortreadau gan Herkomer.

Nid yw hyn yn peri syndod oblegid y mae'n wybyddus fod cyfran o'i waith cydnabyddedig cynnar yn arddangos ei ddiddordeb arluniol — a'i gydymdeimlad — â thestunau 'cymdeithasol' megis yr hen a'r methedig, a phensiynwyr milwrol.

* * * *

SAIS mabwysiedig, mae'n debyg, oedd Hubert Herkomer, ond y mae'n sicr nad anghofiodd ei wreiddiau gwerinol yn Bavaria, ac yr oedd ganddo edmygedd enfawr o'i rieni. Adeiladodd yn frwdfrydig ail gartref iddo'i hun a'i deulu yn ei fro enedigol.

Ymddengys y cofiai'n dda heb ronyn o surni grwgnachlyd y sen a'r caledi a nodweddai ei lencyndod. Datblygodd yn ŵr tra deallus, eangfrydig a chosmopolitan. Derbyniodd yn ddiymffrost y llwyddiant rhyfeddol a ddaeth i'w ran.

Nid amhriodol yw agrymu fod y nodweddion hyn yn ei gymeriad wedi ei hyrwyddo i ymateb yn gadarnhaol i'r dylanwadau Cymreig yn ei fywyd. Ffortunus iawn oedd ei gyfarfyddiad anrhagweledig â C. W. Mansel Lewis o Lanelli; bu'r hir gyfeillach rhyngddynt o fendith arloesol ac amhrisiadwy.

Maentumir, fodd bynnag, mai mwy tynghedus a rhagluniaethol fyth oedd dylanwad hydreiddiol ei fywyd priodasol gyda Lulu a Margaret Griffiths, y ddwy Gymraes hynaws o Ddyffryn Clwyd. Rhyngddynt bu'r ddwy yn fawr eu gofal ohono am gyfnod o bron ddeugain mlynedd.

Nid rhyw elfen o deimladrwydd rhamantus a mursennaidd oedd yn cymell Herkomer yn ei ymwneud â Chymru. Mae'n eithaf sicr nad chwilfrydedd arwynebol yn odrwydd rhan o'r Ymylon Celtaidd — *'quaintness of the Celtic fringe'* — oedd yn ei symbylu. Yn hytrach ei wir gymhelliad oedd diddordeb bywiog a deallol 'yn nhir a daear Cymru', yn ein diwylliant fel cenedl ac yn ffyniant ein Prifwyl.

Rwy'n tybio fod yr amlinelliad yma o stori bywyd Herkomer yn newydd sbon hyd yn oed i'r Eisteddfodwyr selocaf. Nid yw'r ffaith yna yn destun syndod, oherwydd hyd yma mewn brawddeg yn unig, neu fan bellaf ddwy, y cyfeirir at gyfraniad Herkomer yn y gwahanol gyhoeddiadau ar hanes yr Eisteddfod a'r Orsedd.

### ATODIAD BYR

BETH amser ar ôl cwblhau'r ddarlith a'r ysgrif ar Herkomer y daethpwyd o hyd i ragor o wybodaeth. Gwelwyd teyrnged hael a chynhwysfawr i Thomas Griffiths, tad Lulu a Margaret, yn y *Denbighshire Free Press*, 8 Mai 1909, ac yntau wedi marw pan bron iawn yn 90 mlwydd oed. Mab ydoedd i Robert a Mary Griffiths, Axton, ym mhlwyf Llanasa, yn (yr hen) Sir y Fflint, ac fe'i ganwyd 2 Awst 1819. Nid yw'n eglur pa bryd y symudodd y teulu i Ruthun. Un tymor o ysgol yn unig a gafodd y bachgen ac yna fe'i prentisiwyd yn grydd tra'n ifanc iawn. Ymhyfrydai wrth sôn sut y dysgodd ei hun i ysgrifennu — trwy ddefnyddio hoelen ar ysglisen o ledr. Er gwaethaf anfanteision llym ei ddyddiau cynnar roedd yn meddu ar ddogn helaeth o benderfyniad a dyfalbarhad.

Ym mis Mai 1840 ymbriododd â Mary (ni roddir ei chyfenw), 'merch Y Siop, Ochr y Foel, Dyserth', ac fe gawsant ddeuddeg o blant, a saith ohonynt yn goroesi eu rhieni. Ym 1858 fe apwyntiwyd Thomas Griffiths yn Gofrestrydd a Swyddog Cymorth Ruthun a'r ardaloedd cyfagos. Bu yn y swydd am ddeugain mlynedd. Mae tystiolaeth ar gael am ddestlusrwydd hynod ei gofnodion, ac am ei lawysgrif 'ryfeddol a dillyn'! Datblygodd yn ŵr o ddylanwad ym mywyd y dref, ac yr oedd yn un o brif gynheiliaid yr achos Wesleaidd yng Nghapel Bathafarn. Bu farw ei briod ar 5 Medi 1895 yn 76 mlwydd oed. Mae eu carreg fedd i'w gweld ym mynwent Eglwys Llanrhydd.